**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/P/JJ/2546/19

John Griffiths AC/AM
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cydraddoldeb Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

6 Awst 2019

Annwyl John

**Llythyr ymateb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf mewn ymateb i gyhoeddi'r ddogfen 'Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru' gan y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau, ac yn dilyn fy natganiadau llafar ar y map hwn.

Rwyf eisoes wedi derbyn pob argymhelliad yn y Map mewn egwyddor, ac rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am sut rwy'n bwriadu rhoi'r argymhellion hyn ar waith. Ceir isod ymateb i bob un o'r materion a godwyd yn eich llythyr.

Mae fy swyddogion bellach wedi anfon copi at Aelodau'r Cynulliad o gynllun manylach Bwrdd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau. Mae'r cynlluniau hyn hefyd ar gael yn llyfrgell y Cynulliad. Mae'n cynnwys papur ysgrifenedig yn amlinellu'r ffrydiau gwaith sydd eu hangen i wella'r system bresennol a darparu'r cynigion polisi ar gyfer diwygio deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'n cynnwys siart prosiect sy'n dangos yr amserlen ar gyfer y ffrydiau gwaith hyn, a fyddai'n arwain at ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol yn barod i'w chyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad nesaf, yn amodol ar y Llywodraeth nesaf wrth gwrs.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai, nodais fod angen consensws rhwng y rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, a'n bod heb lwyddo i sicrhau consensws llawn eto ar bob mater. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth dadleuol iawn ynghylch disodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân; ond mae'n amlwg yn hollbwysig bod yr holl grwpiau perthnasol yn cefnogi pob elfen o drefn newydd ar gyfer diogelwch adeiladau. Felly, nid wyf yn ymddiheuro am gymryd amser i adeiladu a chynnal y consensws hwnnw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roeddech yn holi ynghylch amseriad Bil i ddisodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân. Mae fy ymrwymiad i ddeddfu ar hyn a materion cysylltiedig eraill yn parhau. Fy mwriad yw cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn ystod tymor y Cynulliad hwn i wella'r ddeddfwriaeth bresennol. Bydd y newidiadau hyn, er enghraifft gwneud y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgynghorai statudol yn ystod y cyfnod cynllunio, yn helpu i wella ein system. Ond nid dyma'r newid sydd ei angen ar draws y system. Mae pwysau difrifol ar raglen ddeddfu Llywodraeth Cymru, ac mae'n annhebygol y bydd amser yn ystod tymor y Cynulliad hwn i gyflwyno Bil ar y raddfa y byddem ei hangen. Fy nod, fel y mae'r cynllun prosiect yn ei ddangos, yw gwneud cymaint o'r gwaith â phosibl yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn er mwyn i'r Llywodraeth nesaf allu cyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn y tymor nesaf os yw'n dewis gwneud hynny. Rwy'n pwysleisio eto bod angen rhaglen ddiwygio gynhwysfawr a fydd yn gofyn am ddull gweithredu cydlynol. Hynny yw, newid y system gyfan ac nid y Gorchymyn Diogelwch Tân yn unig.

Roeddech hefyd yn holi am ddata ynghylch drysau tân mewn tai cyngor. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cadw data o'r fath. Nid rôl y Llywodraeth yw cadw rhestr o bob cynnyrch a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Nodaf fod erthygl *Inside Housing* yn defnyddio amcangyfrifon a ddarparwyd gan Gynghorau yn Lloegr, ac nid yw'n glir i ba raddau nad yw'r drysau tân yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'n un peth i amcangyfrif faint o ddrysau tân nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau, ond heb dystiolaeth gallai gosod drysau newydd fod yn ddrud heb unrhyw fudd materol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân, sy'n cynghori 'personau cyfrifol' i ddiweddaru eu hasesiad risgiau tân ar sail yr wybodaeth sydd wedi dod i'r amlwg am ddrysau tân. Mater i'r personau cyfrifol yw gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r risgiau ac yn cymryd camau priodol.

Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar eu rhaglenni profi, gan gynnwys drysau tân a chladin, ac yn monitro'r sefyllfa. Rwy'n falch bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi cyhoeddi'n ddiweddar canlyniadau'r profion ar ddrysau tân pren ac wedi cadarnhau bod pob drws a brofwyd wedi pasio'r safon ofynnol, sef eu bod yn rhoi o leiaf 30 munud o ddiogelwch rhag tân ar bob ochr.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/818164/Cover_Letter_for_Timber_Release.pdf

Er mai un mesur diogelwch tân yn unig yw drysau tân mewn adeilad uchel iawn, rwyf yn cydnabod eu pwysigrwydd.

Bydd Bwrdd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu data'r Achos Diogelwch a'r Llinyn Aur yng Nghymru, a fydd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â nodweddion diogelu rhag tân fel drysau tân. Byddwn yn ystyried sut orau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid allweddol eraill i greu cronfa ddata, gan defnyddio technoleg a llwyfan a fydd yn gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng diogelwch a thryloywder.

Roeddech hefyd yn holi am brofion ymyrrol lefel 4. Nid yw'n glir pa werth a geir o'i gwneud yn ofynnol cynnal y profion hyn mewn adeiladau preswyl uchel iawn, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud am hyn eto. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Meddiannaeth yn ystyried effaith debygol yr argymhellion hyn a sut y byddant yn effeithio ar yr adnoddau presennol, o ran y niferoedd a'r arbenigedd sydd ar gael. Er fy mod yn cydnabod mai profion ymyrrol yw'r unig ffordd o ganfod diffygion penodol mewn adeiladau, rhaid i mi hefyd ystyried prif rôl y gwasanaethau tân ac achub a sut orau i ddefnyddio eu hadnoddau arbenigol a phrin nhw.

Ceir problemau parhaus gyda chynhyrchion diogelu rhag tân, er enghraifft Laminiad Pwysedd Uchel. Rydym yn gweithio'n agos â MHCLG ar eu cynigion ar gyfer creu corff i

oruchwylio cynhyrchion adeiladu nad ydynt yn bodloni'r safon Ewropeaidd wedi'i chysoni. Mae'r capasiti mewn canolfannau profi'n gyfyngedig, ond rwy'n falch iawn bod y farchnad yn dechrau ymateb ac yn ystyried ffyrdd o ehangu'r capasiti hwn. Mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio â MHCLG ar y mater hwn.

Hyd y gwn i, mae'r adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru sydd wedi cael profion bellach wedi cael y canlyniadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda pherchenogion adeiladau i wneud yn siŵr eu bod yn cymryd camau lle bo'n briodol i sicrhau diogelwch eu preswylwyr.

Rwy'n falch iawn o'n deddfwriaeth newydd yng Nghymru, sef y ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd i'w gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu mewn anheddau a fflatiau newydd a'r rheini sydd wedi'u trawsnewid. Mae gennym hanes cryf iawn yn y sector cyhoeddus, gyda systemau chwistrellu wedi'u gosod ym mron i 70% o adeiladau preswyl uchel iawn yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa'n gwella yn y sector preifat hefyd, ond rwy'n cydnabod bod angen gwneud mwy i gynyddu nifer yr adeiladau sydd â system chwistrellu, yn enwedig blociau uchel hŷn. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio ar gynigion ar gyfer opsiynau i gynyddu nifer yr adeiladau preswyl uchel iawn yn y sector preifat sydd â system chwistrellu. Mae ôl-osod systemau chwistrellu yn rhywbeth rwy'n awyddus iawn i'w gefnogi a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn maes o law.

Mae cynlluniau adfer yn eu lle ar gyfer pob adeilad perthnasol yng Nghymru i dynnu cladin ACM nad yw'n cydymffurfio â'r safonau a gosod cladin newydd. Nid yw hyn yn ateb cyflym a hawdd, ac mae datblygwyr wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i gladin newydd a'i gynllunio. Mae cladin newydd eisoes wedi'i osod ar un adeilad, ac mae disgwyl i waith ddechrau ar nifer o adeiladau eraill ym mis Medi. Mae'r gwaith ar adeiladau eraill yn parhau, er enghraifft penodwyd contractwyr neu mae prosesau caffael yn mynd rhagddynt. Byddaf yn ysgrifennu i ofyn am ddiweddariad pellach ar gynnydd, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

Cyhoeddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiwygio Lesddaliadau Preswyl ei adroddiad ar 17 Gorffennaf. Eu hargymhelliad nhw oedd 'Datblygu un Cod cyfunol i Gymru sy'n gysylltiedig â chynllun trwyddedu neu achredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau gydnabod y Cod Ymarfer a chydymffurfio ag ef'. Byddaf yn ystyried eu hargymhellion yn ofalus ac yn ymateb iddynt yn yr hydref.

Mae'r Fonesig Judith Hackitt wedi datgan yn gywir nad ddylai unrhyw system ganiatáu i gleientiaid ddewis eu rheoleiddiwr eu hunain. Felly, mae'n bwysig bod Arolygwyr Cymeradwy yn gwbl annibynnol. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi eto y dylai'r awdurdodau lleol weithredu fel yr unig reoleiddiwr ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn. Felly, rwyf wedi gofyn am gyngor arbenigol pellach ar rôl y cyrff rheoli adeiladu (awdurdod lleol neu arolygydd preifat cymeradwy) o dan y system newydd. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r dasg a roddir i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dylunio ac Adeiladu, a bydd yn cynnwys y goblygiadau o ran adnoddau a chymhwysedd.

Fel y mae eich llythyr yn ei gydnabod, mae'r materion hyn yn gymhleth ac yn dechnegol anodd. I ddiwygio system mor eang ac amlweddog, yn unol â dymuniad y Fonesig Judith Hackitt a'r Pwyllgor, mae angen cydweithio sylweddol a chynhwysfawr. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu gweithgorau newydd i lunio manylion y cynigion a amlinellir ym Map y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau, ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i oruchwylio'r gwaith hwn. Yn ogystal, comisiynwyd ymchwil newydd i helpu i bennu cwmpas rhai o'r diwygiadau hyn ac i ddarparu data ar gyfer dadansoddiad economaidd. Wrth i ni symud ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i ddibynnu ar gyngor technegol, arbenigedd cyfreithiol a thrafodaethau rhynglywodraethol.

Rydym yn gweithio'n gyflym ond bydd yn cymryd amser i weld cynnydd. Rwy'n deall y rhwystredigaeth a fynegir gan y Pwyllgor, ond hoffwn ailddatgan fy ymrwymiad i gyflawni gwelliannau parhaol i ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. I'r perwyl hwn, rwy'n gobeithio bod y cynlluniau manwl a anfonwyd atoch wedi lleddfu rhywfaint ar eich pryderon ynghylch cyflymder y diwygiadau hyn.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government